To view our kennels phone 01267 281628

or 07833630605 or email conquelle@gmail.com

Gwyrdd Enterprises

Property Maintenance - Household Repairs

Patio Cleaning - Drain unblocking

Carpet, Rug and Upholstery Cleaning

Car Battery Diagnosis, Jumpstarting &

replacement. TV and computer Set Up.

If you can't see what you need just ask

Contact Jon 07943 948173

Based in Llanpumsaint

Gwyrddenterprises@gmail.com



Hafan Holistaidd

Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology

Tyluno / Aromatherapy

Massage

Indian Head Massage

Thermal-auricular (Ear

candling) – Reiki.

Meleri Brown MAR

mels.brown@hotmail.co.uk 07855488660

Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist

Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,

SA33 6LT

Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau

MOT, servicing, tyres, repairs

Tel: (01267) 253599

JRB & K Thomas

Peniel Road Carms SA32 7DR



Virtue Holistics

Holistic therapies

Reflexology

Indian head massage

Functional facial.

Megan Williams

07717763460



MYRDDIN HERITAGE

From our field & from our friends,
monthly delivery of Welsh products to your door

Cynnyrch o Gymru 

www.myrddinheritage.wales

Cherish the Memories

Wedding/Funeral Flower Preservation
Memorial Jewellery



Breastmilk Jewellery
& Keepsakes
Pet Memorial Jewellery

The Watermill
Llanpumsaint, SA33 6DA

www.pandoras-keepsakes.co.uk
www.facebook.com/PandorasKeepsakes

Local Business? You can advertise here for £50

Includes an advert in Village Voice for 6 issues, plus a webpage linked to yours on
www.llanpumsaint.org.uk, or just £5 an issue for advertising in Village Voice.

Contact Carolyn Smethurst 01267 253308 or email info@llanpumsaint.org.uk

Much of the information contained within this newsletter has been provided by the contributors. Whilst every effort has been made to ensure that the information is correct, the committee of Llanpumsaint Community Information Exchange is not responsible nor liable for any actions taken from use of content and the opinions expressed within this newsletter.



Llais y Llan Mehefin 2024

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 Gorffennaf 2024


Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk



Diolchwn Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa am gefnogi Llais y Llan a www.llanpumsaint.org.uk drwy roi £3,000 y flwyddyn am ddegawd – felly cyfanswm o £30,000

Dolydd, gwrychoedd ac ymylon




Ann Pettitt



Elsie Jones



Dafydd Charles



Clare Bishop

Dyddiadau i'ch dyddiadur

Digwyddiadau Unigol

- **Gwener Mehefin 21ain** - Mabolgampau'r Ysgol yn y Cae Chwarae – Croeso!
- **Gwener Mehefin 21ain** - Cwis yn y Neuadd - drysau'n agored am 7 i gychwyn 7.30. £2.50 yr un mewn tîm lan i 5. Dewch a'ch lluniaeth - Arian parod i'r enillwyr.
- **Sadwrn Mehefin 29ain** - Dydd Hwyl y Pentref yn y Neuadd a'r Cae Chwarae, 11 - 4
- **Mawrth Gorffennaf 9fed** – Profi'r Dawnsio Llinell – Neuadd 6.30-7.30
- **Mawrth Gorffennaf 9fed** – Cyfarfod Cyngor Cymuned – 8 o'r gloch - Neuadd
- **Gwener Gorffennaf 12fed** – Codi Canu – Neuadd 7.00 tan 9.30. Dewch a'ch lluniaeth gyda £2 am gost y Neuadd
- **Mercher Gorffennaf 17eg** – Noson o gerddoriaeth Taize a myfyrdod – Eglwys am 7 o'r gloch.
- **Gwener Gorffennaf 19eg** - Cwis - Neuadd 7 am 7.30- £2.50 yr un - Tîm lan i 5 - Dewch a'ch lluniaeth - Arian parod i'r enillwyr
- **Sadwrn Medi 7fed** – Helfa Drysor dan arweiniad Pwyllgor y Cae
- **Llun Medi 16eg** - Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Neuadd gyda Phwyllgor arferol i ddilyn

Digwyddiadau Cyson

- **Bowlio Dan-do** - Neuadd - nos Lun ac Iau - 7.30 tan 9.30 (ailgychwyn ym mis Medi)
- **Caffi Bach yr Eglwys** - Dydd Mawrth 11.30 tan 2.0 o'r gloch (gorchmynion diwethaf)
- **Ymarfer Cylched** – Neuadd- Nos Fercher o 7 – 8
- **Cwtsh Cynnes** - Neuadd – Dydd Iau 10 tan 1 o'r gloch – creffttau, cardiau, tennis bwrdd a mwy i'w ganlyn gan ginio cartref. Croeso i bawb! (gwyliau haf 18 Gorffennaf – 5 mis Medi)
- **Ymarfer Cylched** – Nos Fercher o 7 – 8 a Dydd Sul o 10-11

Gwasanaethau Crefyddol

- **Eglwys Llanpumsaint - Ewcharist Sanctaidd** am 9 o'r gloch fore Sul
Hwyl Weddi – Nos Lun 5.30
Chwarae gyda Duw – dydd Mawrth 3.30 tan 5.00 – stori, gweithgaredd a rhywbeth i fwyta i blant gyda'u rhieni adeg y tymor.
Cylch DOT - Plant dros 10 oed - Eglwys Dydd Iau 5.30 tan 7.00 adeg y tymor ysgol.
- Llanllawddog a Celynin Bronwydd 11 bore bob Sul
Cysylltydd – Tad Tim Nelson 07368 496917 timnelson@cinw.org.uk
Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Churches
- **Capel Caersalem** Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch ag Eleri Morris 01267 253895.
- **Capel Ffynnonhenri** - Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch â Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 neu Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** - Gwybodaeth am wasanaethau oddi wrth Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

Gwasanaethau wythnosol y pentref

- Dydd Mawrth - Cerbyd y Swyddfa Bost - 2 hyd 3.45 o'r gloch – Gyferbyn a'r tafarn
- **Dydd Mercher – Gwasanaeth newydd – Milfeddyg MiMobile yn ymweld tu allan i'r Neuadd o 3.30 hyd 5.45. Am apwyntiad galwch 01267 220404**
- Dydd Mercher – Cerbyd y Llyfrgell 10.45 hyd 11.15 ger y Neuadd - 11.15 hyd 11.45 ger y tafarn – ymweliadau unwaith bob tair wythnos – 3 Gorffennaf, 24 Gorffennaf, 14 Awst
- Dydd Mercher - Cogydd Bara - gwasanaeth i'r tŷ - 07971 740505
- Dydd Mercher - Pysgod - gwasanaeth i'r tŷ - 07779 987305
- Dydd Iau - Ffrwythau a llysiau - gwasanaeth i'r tŷ - 07969 047045
- Dydd Gwener – Cerbyd y Swyddfa Bost - 1 hyd 3 o'r gloch – Gerllaw'r Tafarn.

Lleoliadau'r Adfywiwr lleol: wastad ar agor 24 awr y dydd.

- Tu fas y Neuadd Goffa – SA33 6BZ
- Tu fas Tafarn y Railwe - SA33 6BU
- Ar wal fferm Henfryn Ffynnonhenri – SA33 6LD
- Tu fas Festri Capel Nebo - SA33 6HN

Eglwys Llanpumsaint

Helo bawb gan obeithio eich bod yn iach. Dyma restr o'n gweithgareddau –

- Hwylol Weddi – Nos Lun 5.30 dan arweiniad Niki Day
- Caffi Bach Dydd Mawrth - 11.30 hyd 2.30 gyda'r archebu olaf am 2 o'r gloch. Yn agored i bawb o bobl y byd - hoffwn eich gweld yno! Mae yna greision a bisgedi amrywiol ynghyd a chacen gartref. 50c am ddiod ac ail-lenwi am ddim.
- Chwarae Duw - Hefyd ar ddydd Mawrth o 3.30 tan 5.00 am stori, gweithgaredd crefft a chwarae. Lluniaeth ar gael i'r rhiant. Y gweithgaredd yn rhad ond rhaid bod oedolyn cyfrifol gyda'r plant.
- DOTS i'r plant hyn eilradd ar Nos Iau o 6.00 tan 7.30. Amser i ymlacio, chwarae gemau a chanfod ffydd. Bydd diodydd a danteithion ar gael, a hwn eto yn rhad ac am ddim.
- Gwasanaeth Eglwysig – Bob Sul am 9 o'r gloch y bore gydag ymborth i ddilyn.

Hoffwn eich gweld ar unrhyw un o'r achlesir uchod a chadwch lygad am weithgareddau eglwysig eraill - er enghraifft --

- Sadwrn 29ain Mehefin – Dydd Hwyl y pentref
- Nos Wener 17eg Gorffennaf 7.00 yn yr Eglwys – Noson o gerddoriaeth Taize a myfyrio. Dewch i wrando neu ymuno yn y canu – ffordd dda o ymlacio.
- Sadwrn 5ed Hydref - Swper y Cynhaeaf

Gweld chi cyn hir - Y Tad Tim Nelson, Niki Day a'r tîm

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Agorwyd y Bar yn y Neuadd ar Fehefin y 7fed. Diolch yn farw i Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa am eu cefnogaeth rad o £7,000. Mae gwelliannau eraill ar droed drwy gefnogaeth y Fferm Wynt, megis yr estyniad ac uwchraddio'r gegin.



Pwyllgor y Neuadd gyda Moisha Merry Rheolwraig Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. Mae'r Neuadd yn parhau i fod yn ganolfan prysur i weithgareddau'r gymuned gyda'r Mudiad Cylchynol nawr yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos, Cwtsh Cynnes nos Iau, a Chodi Canu a'r Cwis yn fisol ar Nos Wener. Profodd y ddrama gan actorion yr Attic Castell Newydd Emlyn i fod yn fwynhad ac yn heriol, gan gynulleidfa luosog.

Rhywbeth Newydd – Dawnsio Llinell – Yn rhoi tro arni Nos Fawrth Gorffennaf 9fed o 6.30 – 7.30

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint (Y Cae Chwarae)

Dyma'r Pwyllgor o wirfoddolwyr y pentref sy'n rhedeg y Cae Chwarae. Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar nos Fercher y 10fed o Ebrill yn y Neuadd Goffa am 8 o'r gloch. Diolch i bawb wnaeth ddod. Etholwyd y swyddi canlynol – Cadeirydd Aaron Jones – Is-gadeirydd Heledd Jones – Trysorydd Karen Davies – Ysgrifennydd Mike Eynon. Croeso cynnes i Karen sy'n ymuno a ni eleni, mae'n bleser eich cael yma gyda ni.

Diolch i bawb wnaeth gyfrannu i lanhau'r Cae ar Sadwrn y 1af o Fehefin –edrych yn hyfryd!
Rhai dyddiadau i'ch atgoffa

- Dydd Hwyl Llanpumsaint 20/06/2024. Bydd yna Ras Hwyaidd eto eleni. Os am brynu hwyaden - £1 yr un - cysylltwch â'r Pwyllgor neu yn y modd arferol.
- Helfa Drysor – 07/09/2024

Cadwch lygad ar Facebook Llanpumsaint am weithgareddau eraill. Fel arfer rydym yn chwilio am wirfoddolwyr newydd at gynnal a chadw a chodi arian i'r Cae, felly os am roi cynnig arni cysylltwch drwy E-bost parcllanpumsaintpark@gmail.com neu siarad ag Aaron Jones (07814157946) neu aelod o'r Pwyllgor.



Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Neuadd - Yn chwilio am Ymddiriedolwyr newydd a hefyd Ysgrifennydd I'r Cwmni

Digwydd hyn ar Fedi 16eg gan obeithio am Ymddiriedolwyr ac ymgynghorwyr gan edrych yn benodol am Ysgrifennydd I'r Cwmni - Angen sgiliau i gadw ar ben pethau gan ddiweddarau polisiau a threfniadau'r Neuadd. (Ni fydd angen cymerid munudau cyfarfodydd i'r swydd hon). Nid oes raid hefyd i'r person fod yn Ymddiriedolwr.

Os am ymuno a'r Pwyllgor bywiog hwn cysylltwch â'r Ysgrifennyddes Clare Bishop clarebish@yahoo.co.uk

Bowlio Dan- Do Llanpumsaint a Nebo

Terfynwyd y tymor gan Noson Gymdeithasol gan orffen cystadlaethau'r Clwb. Felly llongyfarchwn y canlynol -

- Parau 2 Bren – Peter Giles a Derick Lock
- Parau 2 Bren Unigol – Kieran Thomas
- 4 Pren Unigol – Rhys Thomas

Aeth Tarian Cof Alan Dentry am aelod y flwyddyn yn ôl pleidlais yr aelodau i Gareth Davidson. Cyflwynwyd Tarian yr Ail Adran i'n Capten Rhys Williams yn y Cinio Dathlu yn Cross Hands. Derbyniodd y Clwb hefyd Dystysgrif am y gorau yn y cystadlaethau Triphlyg yn y ddwy adran am y tymor 2023-2024. Cynhaliwyd ein Cinio ddiwedd tymor am y tro cyntaf ers y cofid yn nhafarn Nantcelyn Bronwydd.,



Hoffai'r Clwb longyfarch Catrin Williams a Jill Edwards ar gael ei dewis i Dîm Merched Cymru i'r Gystadleuaeth Merched Prydain gynhelir ym Mis Hydref 2024. Cymer yr aelodau hoe fach nawr dros yr haf cyn ail gydio eto ym mis Medi.

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill.

Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna Ceir mwy o wybodaeth drwy hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifennyddes Jill Edwards ar 01267 253474

Clwb Gwili Chwedeg

Mae hwn yn fudiad llewyrchus sy'n cynnal gweithgareddau mewnol bob mis ynghyd ag amrywiaeth o deithiau drwy'r flwyddyn, gan gynnwys y Twrci a Thinsel 4 Diwrnod yn Nhachwedd. Dros y blynyddoedd buom yng Nghernyw, Dyfnaint a Gwlad yr Haf.

Ddydd Llun yr 20fed o Fai cawsom ddarlith gan Tom Phelps ar Hiwmor y Cymoedd ,lle'i magwyd. Swynwyd yr aelodau yn fuan gyda'i storiâu a'i farddoniaeth.

Rhaglen yr hyn sydd i ddod yn Neuadd Bronwydd am 2 o'r gloch fel arfer.

- Llun Mehefin 24ain – Jeremy John – Bywyd ac Amserau Thomas Crapper
- Llun Gorffennaf 22ain - Darlith gan Paul Raven - Blasu Te
- Mercher Awst 7fed - Taith i ymweld â Phlasty Llancaeath Fawr, ail-ymweld a Phlasty Cerdd Porth, ac yna at Gasgliad Organau Theatr Paul Kirner yn Rhondda Cynon Taf. Oherwydd poblogrwydd yr ymweliad hwn y llynedd dychwelwn eto er mwyn nifer na welsant.
- Llun 19eg Awst - Darlith gan Dave Robinson - Scams a sut i'w osgoi.

Aelodaeth blwyddyn £10 - Tal mynediad £2 i gynnwys tocyn raffl. Rhagor o wybodaeth oddi wrth yr ysgrifenyddes Val Giles 01267 281194.

Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio'n ymarfer defnyddiol a diddorol ac yn hawdd i'w ddysgu. Credir iddo gychwyn yn yr Aifft neu hyd yn oed yn gynharach. Gwelir cwmnïau'n defnyddio dewinwyr profiadol i ganfod dŵr, mwynau, olew, gwifrau trydan ac yn y blaen. Gwelir rhai yn dewinio iechyd eu bwyd, neu ganfod straen geopathig yn yr amgylchfyd, ond cred bersonol yw hyn heb gadarnhad gwyddonol hyd yn hyn. Pam na ymunwch a ni i ganfod pethau dros eich hunan. Fel arfer down o hyd i amser ar ddiwedd ein cyfarfodydd i roi gwers fer, neu'n well fyth dowch ar un o'n hymweliadau

Cyfarfodydd i ddod yn Neuadd Bronwydd am 1.45 - 2 o'r gloch

- Sul Gorffennaf 28ain - Theolyn Andrews - Angylion a'r Kabbalah
- Sul Medi 22ain – Sid Howell – Dr William Price Y Derwydd Cymreig
- Sul Hydref 27ain – Tony Ryan – Sul mar gwneud eich bwgan
- Sul Tachwedd 24ain - Ros Briaga - yn ôl gyda Seryddiaeth Gyfoes

Cawsom ddarlith ddiddorol iawn gan Ros Briaga ein Hysgrifenyddes/Drysorydd ar Sul 26ain o Fai ar Rwns a sut i'w defnyddio yn ein bywyd dyddiol. Fe'n synnwyd i wybod na fwriadwyd Rwns i fod yn wyddor, a bod llawysgript Rwn a'r holl symbolau yn perthyn i'r Duwiau Scandinafiaidd sef Odin, Thor a Freya. 'Roedd gan bob symbol ystyr, a rhai mwy nag un ystyr yn berthnasol i fywyd bob dydd drwy rybudd neu anogaeth. Dangoswyd ni hefyd y ffordd i ysgrifenni ein henwau mewn Rwnic. Defnyddiwyd y D yn gysylltiedig â Deang neu Sigil.

Codi Canu



Bu'r Cylch Codi Canu yn cyfarfod ar Nos Wener yn Neuadd Llanpumsaint bellach am flwyddyn. Felly wrth ddathlu'r achlysur hoffwn ddatgan mor hapus rydw i' o weld cynifer beth bynnag eu gallu yn barod i ganu gore gallant a mwynhau hen ffefrynnau. Dyma rywbeth mae nifer yn gwneud yn y car neu'r gawod allano gliw eraill. Daw canu a theimladau cadarnhaol i'r wyneb gan ail-greu twrw a mwynhad yr hen dafarnau tua stop tap. 'Roeddwn i yno hefyd!

Rhyw 25 i ni fel arfer, digon am awyrgylch gynnes i greu digon o sŵn. Yn ein cyfarfod diwethaf yn Ebrill cawsom Fwffe'r 70degau i godi arian i Poundies gwarchodde i wn yn Llandeilo. Llwyddwyd i gasglu £1,000, diolch i'n cantorion am baratoi'r bwyd a chyfraniadau cefnogwyr a busnesau lleol. Hoffwn ddiolch i chi gyd ac mae'r Elusen yn dra diolchgar hefyd.

Byddwn yn cyfarfod nos Wener 12fed o Orffennaf yn

y Neuadd yn dilyn ein toriad am yr haf. Dechrau am 7.00 ac i orffen am 9.30. Dewch a'ch lluniaeth gyda'ch a £2 i gynnal y Neuadd, ac yn cynnwys tocyn raffl. Os nad ydych wedi bod yna rhowch gynnig arni; byddwch yn siŵr o fwynhau'r profiad.

Carolyn Atkinson

Clwb Cochion Llanpumsaint

Rydym wedi derbyn grant am gyfnod o 3 blynedd oddiwrth Fferm Wynt Brechfa felly yn sicrhau bydd y Clwb yn parhau am o leiaf 3 blynedd. Gyda hyn byddwn yn medru cadw cost presenoldeb yn £5 y noson i bob plentyn dros y cyfnod hyn. Bydd y Clwb yn rhedeg ar nosweithiau Llun, Mawrth a Iau o 15.30-17.29 o'r gloch.

- Arweinydd y Clwb- Sian Evans
- Cynorthwy-ydd Chwarae- Diane Thomas
- Cynorthwy-ydd Chwarae Achlysurol- Eluned Evans
- Aelodau'r Pwyllgor- Donna Thomas, Catrin Eldred, Heledd Jones ac Ann Jones.

Os oes diddordeb gennych helpu yn y Clwb fel gwirfoddolwr neu weithiwr achlysurol NEU diddordeb i ymuno a'r pwyllgor cysylltwch ag aelod o'r pwyllgor neu Sian Evans yn yr ysgol. E.bost staffclwbcochion@gmail.com

Gwennoliaid yn ôl yn y stablau a chywion gŵydd ar y llyn

Braint fu hi i fyw yma yn ein pentref godidog ers 2001, heb ystyried bryd hynny pa mor fendithiol fu dewis Llanpumsaint.

Yn gyntaf oll y bobl gyfeillgar a'r gymuned ofalgar. Yna'r hinsawdd! Fel garddwyr brwd ni sylweddolom fod Llanpumsaint yn eistedd mewn poced rewlyd lle gall y tymheredd fod 5 gradd yn is na'r cyffredin. Byddai Malcolm Pandy yn paratoi ei ddarn o ardd ond ddim yn plannu - Na medde fe - Peidiwch blannu dim nes diwedd Mis Mai! Fe blannom ni yn ôl ein harfer ac yna colli ein holl gynabens ynghyd a'r tato hefyd. Wedyn un flwyddyn collwyd y gynabens pan ddaeth rhew ar y 12fed o Fehefin.

Ond hyfryd oedd gweld y gwenoliaid y cyrraedd y stablau gan gywiro'r nyth wrth ben y tractor, heb fecso fod honno yn cael ei symud yn aml a ninne miw'n a mas. Maent yn dychwelid yno o hyd ond erbyn hyn wedi symud y nyth felly nid yw'r tail yn glanio ar y tractor.

Mae'r gwyddau Canada hefyd yn dychwelid yn flynyddol i fagu ei cywion. Ambell dro gwelir dros 20 o gywion gyda 8 neu 9 par yn nythu ar ynys y llyn. Am y 10 mlynedd gyntaf byddai gŵydd wyllt heb ,ac yna diflannu nes y flwyddyn ganlynol. Barn un o'r hen drigolion oedd mai gŵydd eira oedd hi, ac iddi ddod yma am dros 10 mlynedd.. Erbyn hyn daw iâr ddŵr, gwyach fach, mandarin, a hwyaid gwyllt yn rheolaidd, ond dim alarch - un dydd efallai!

Carolyn Smethurst



Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Croesffordd Graig - Yn dilyn cyfathrebiad o Gyngor Cymuned Bronwydd mae Cyngor Llanpumsaint yn cau pen y mwdwl ar y mater yma. Gellir gweld hwn ar [<https://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en/>](https://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/en/)

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar y 9fed o Orffennaf am 8 o'r gloch. Os am osod mater ger bron, drwy gyniatad y Cadeirydd, dylid ei dderbyn erbyn yr 28ain o Fehefin. E-bost i llanpumsaintclerc@btinternet.com, neu nodyn i flwch post ger mynedfa Pantycelyn.

Angela Bearman – Clerc Cyngor Cymuned Llanpumsaint – llanpumsaintclerc@btinternet.com

Cwtsh Cynnes

Yn wahanol i'r arfer o fod gyda'r crefftau gwnaeth y Cwtsh Cynnes gynnal siaradwyr. Rhannodd Charlotte Drew ei phrofiadau gydol oes o weithio yn y maes gofal gan rannu ei gweledigaeth i ymwneud a gorddryswch, pwysigrwydd Gofalwyr a Dogfenni. Eglurodd bwysigrwydd Pŵer Atwrnai Parhaol am iechyd, gofal ac ariannu. Yn wahanol i ewyllys (sy'n ddefnyddiol wedi marwolaeth mae honno, sef (Lasting Power of Attorney- LPA) yn galluogi rhywun i wneud penderfyniadau drosoch pan fyddwch fyw. Trafododd hefyd Benderfyniadau Blaengar (Advanced Decisions) - penderfyniad wnewch nawr i wrthod ryw driniaeth yn y dyfodol. Trafododd hefyd Tenants in Common - lle gellir gadael y tŷ i rywun heblaw'r perchennog arall yn ôl eich Ewyllys.

Gwnaeth Arwyn Thomas gamu i mewn i hanes swynol gyfoethog Llanpumsaint, gan gychwyn yn Oes Yr Ia, drwy'r llinellau ley, yr eglwys a'r capeli, y rheilffordd, ffatrioedd gwlân, gan orffen am hynt y bechgyn gofiwn yn y Neuadd oherwydd y ddwy Ryfel Byd.



Cawsom weithgareddau crefft fuddiol hefyd dan arweiniad Gofal y Celfyddydau. Hyn dan gefnogaeth Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa, gan gynnwys gwehyddu helygen, addurno papur Haf a gwasgu blodau. Daw'r dyfodol a chrefft papur (Gorffennaf 27ain) Macramé'r goedwig (Gorffennaf 11eg) ag Antur mewn Clai (Gorffennaf 18fed). Hyn oll gyda chlonc gyda chyfeillion hen a newydd. Cwrddwn bob dydd lau o 10 tan un un o'r gloch gyda chroeson i bawb. Wedi'r cyfarfod ar 18fed o Orffennaf byddwn yn torri am yr Haf nes Medi'r 5ed.



Noson Cwis Llanpumsaint

Gyda'r Haf ar gyrraedd ond dwy noson Gwis sydd ar ôl cyn ein toriad Mis Awst. Ble aeth yr amser?

Eleni mae'n argoeli'n cystadleuaeth glos iawn. Cyfrir y 7 sgôr uchaf dros 11 noson i ddatgeli'r cyfartaledd gorau dros y cyfnod, gyda'r un ar y brig yn ennill. Hyd yn hyn 5 noson sydd wedi bod, ar hyn o bryd No Dogs in the Park sydd ar y brig gyda No Corners yn ail ac enillwyr llynedd May Contain Nuts yn y drydydd safle. Ond dim ond 1.6 pwynt sydd rhyngddynt. Rhwng y 4dd a'r 10fed safleoedd 4.7 sydd yn eu gwahanu, felly mae'n sefyllfa agored iawn wrth gofio i 8 tîm gwahanol gyrraedd y tri safle uchaf rywbyrd. Gyda 8 noson i fynd gallai rhywun newydd ennill clod eto.

Ond nid ennill yw popeth a chroesawn rhai newydd i fwynhau noson o hwyl. Dyddiadau'r ddau cyn y toriad yw Nos Wener Mehefin 21ain a Nos Wener Gorffennaf 19eg. Yna byddwn yn dychwelid ar Nos Wener Medi 21ain i mewn i'r hydref gydag ein Gwisgo Lan Bwganod yr Hydref a'r Parti Nadolig yn Rhagfyr. Felly edrychwn ymlaen at eich gweld yn ystod y cyfnod, a diolch i bawb am eu cefnogaeth hyd yn hyn. Sara a Darrell

Sara and Darrell



QUIZ NIGHT

**CASH PRIZE
SPOT PRIZES**

**UPCOMING LLANPUMSAINT
MEMORIAL HALL QUIZ NIGHTS**

THIRD FRIDAY OF EACH MONTH

**21ST JUNE, 19TH JULY &
20TH SEPTEMBER**

DOORS OPEN 7.00PM, FIRST QUESTION 7.30PM

ONLY £2.50 PER PERSON

(MAX 5 PLAYERS PER TEAM)

BOOKING ADVISED (But not essential)

**BRING YOUR OWN
DRINKS, SNACKS
AND GLASSES**

For further information and booking contact Sara or Darrell via FB or email
sara.ward4@btinternet.com
All profits go to the Memorial Hall maintenance funds

Tymor hynod brysur unwaith eto a'r plant yn dangos Ysgol Llanpumsaint ar eu gorau!



Rhaid sôn am Tractor Run Llanpumsaint ar Ebrill 13eg. Am ddiwrnod!! Diolch i Catherine Vimpany a Tom Rees am eu gwaith i drefnu'r diwrnod ac i Brian Thomas am drefnu'r daith. Diolch i bawb ddaeth a tractor, am bob cyfraniad ariannol, am y gwobrau raffl ac i bawb am gefnogi'r diwrnod. Roedd y gefnogaeth yn wirioneddol anhygoel!!

Ar Fai 9fed cafwyd yr ysgol prynhawn hyfryd yn plannu blodau gwyllt a pherlysiau yn y parc gyda Cwn Arian Renewable Energy. Diolch yn fawr iawn. Edrych ymlaen i'w gweld yn tyfu!

Ar Fai 14eg, daeth ymwelwr enwog iawn i'r ysgol sef y cantores Bronwen Lewis. Plant wrth eu bodd yn ysgrifennu, cyfansoddi a chanu gyda hi.



Ar Fai 9fed cafwyd yr ysgol prynhawn hyfryd yn plannu blodau gwyllt a pherlysiau yn y parc gyda Cwn Arian Renewable Energy perfformiad anhygoel gan dîm blynyddoedd 4, 5 a 6 hefyd. Da iawn blant - unwaith eto yn ein gwneud ni'n gefnogwyr balch iawn.

Cafwyd noson wych yn Neuadd Llanpumsaint yn chwarae darts i godi arian i'r ysgol. Noson gystadleuol iawn!! Diolch i Helen Hastings a phawb bu wrthi yn trefnu'r noson lwyddiannus. Diolch yn fawr iawn!

Roedd digwyddiad arbennig ar Fehefin 8fed ar gae rygbi Nantgaredig yn ddathlu gwaith disgyblion ein hysgol ni gyda phrosiect Brechfa 'Cynefin' yn ogystal ag Ysgol Abergwili, Ysgol Peniel, Ysgol Cae'r Felin, Ysgol Nantgaredig ac Ysgol Llanllwni. ([Cynefin Project / Prosiect Cynefin Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund \(youtube.com\)](https://www.youtube.com/watch?v=...)).

Roedd yn brynhawn llawn hwyl ac adloniant. Roedd y disgyblion yn rhan o gôr chwech ysgol a fu'n perfformio ar y llwyfan gyda Dafydd Iwan a'r Welsh Whisperer! Hynod lwcus! Roedd cyfle i weld gwaith y disgyblion o'r chwe ysgol ar y thema Cynefin a chael blas ar y profiadau cyfoethog. Diwrnod llwyddiannus iawn!



Dyddiadau i ddod: Mehefin 21ain – Mabolgampau ar gae Llanpumsaint. Croeso cynnes i bawb!

Hewlydd Bishi

Yr y rhifyn diwethaf o'r Llais disgrifiais pa mor brin ac anaml welwyd peiriannau modur ar ein hewlydd lleol yn y cyfod rhwng y ddwy Ryfel Byd, ac felly pa mor rhydd oedd hi inni blant chwarae arnynt. Ni ddylai hyn er hynny ein twyllo eu bod yn wag. Mewn gwirionedd byddent wastad yn llawn sŵn a symud.

Yn gynnar y bore clywyd sŵn clocs ac esgidiau'r gweithwyr ffatri, y rheilffordd a'r gweision ffermydd yn prysuro at eu gwaith. Gan na ddaeth trafndiaeth ysgol i fodolaeth nes diwedd yr Ail Ryfel Byd, cerdded bu tynged y plant, ar wahân i'r rhai ffodus yng nghwt cerbyd y Postman ar fore gwlyb. Bu un neu ddau yn ffodus i berchen beic, a gwelid bechgyn y pentref y canlyn cylch i iard yr ysgol. Pob un ar frys i arbed tafod Mr. Johns yr Ysgol Feistr. Hollol wahanol fyddai pethe ar ôl y gloch prynhawn. Oedi am felysion y siop Gwili Vale, cico peli lawr hewl, dadle a'u gilydd, adrodd storiâu, ceisio dal ieir bach yr haf a jaci jwmpers, llunio Chwibanog o lasbren, dwyn fale a chadw llygad am lift adre. Byddai'r mamau fyth yn pryderi os na fyddent yn hwyr iawn i de.

Gyda siopau eraill yn Nebo, Bancyn (ar hewl Ffynnonhenri) Gwyn Villa (nes lan na thafarn y Railwe), heb son am un fawr Pantycelyn, erbyn canol bore byddai nifer wrthi'n siopa cloncian. Eraill yn prysuro i ddal trênaill a'i lawr i'r dre neu lan i Bencader. Bydde'r Co-op yn brysur erbyn hyn, gyda nifer o geirts ffarm yn aros yw, a chyfle i ambell un lygadu lift tuag adre. Erbyn canol dydd byddai'r cerbyd post a'r lori laeth wedi hen fynd ond bydde fan gig Pantycelyn wrthi o hyd yn dosbarthu.

Dyma oes pan fu teuluoedd yn cadw mewn cysylltiad agos a chyson, felly dros ddisgled a chacen yn y prynhawn bydde nifer o'r gwragedd yn dal i fyny a holl newyddion eu perthnasau. Ac o gwrdd â gormod ar yr hewl gallech fod yn hwyr gartre. Bryd hynny 'roedd Llanpumsaint yn llawn o weithwyr ar ffermydd bychain, felly ar droed neu ar gart a cheffyl gwelwyd hwy'n mynd a dod drwy'r dydd. Prysur adre wedyn a pharatoi a Chwrrdd Gweddi neu ymarfer canu.

O bell ffordd Dydd Sul a welwyd yr heolydd ar eu prysuraf, a channoedd yn cerdded i'r oedfaon capel ac eglwys - rhai teirgwaith i'r bore, prynhawn a'r hwyr. Ond wnaeth hyn ddim atal ar ein defnydd o'r hewlydd, oherwydd feiddiai neb chwarae ar y Sul. Hyd yn oed ganol nos ac yn oriau man y bore clywyd troedio ysgafn ar heolydd y pentref. Pwy o'dd hwnna? Potsier yn aneli'n ddirgel am y Gwili neu'r Beiliff yn cropian ymlaen mewn gobaith!

Arwyn 2024

Capel Caersalem a Celynos yn y cefndir





DIWRNOD HWYL **Llanpumsaint**

FUN DAY 29/06/24 11:00

- STONDINAU | STALLS
- BARBECIW | BBQ
- RAS HWYD | DUCK RACE
- LLUNIAETH | REFRESHMENTS
- GEMAU PLANT | CHILDREN'S GAMES
- GWISG FFANSI- RHYWBETH YN DECHRAU GYDA 'P' | FANCY DRESS- SOMETHING BEGINNING WITH 'P'
- A MWY | AND MORE....

RHENNIR YR ELW RHWNG CRHA YSGOL LLANPUMSAINT, NEUADD GOFFA
LLANPUMSAINT, CYMDEITHAS LLES A HAMDDEN LLANPUMSAINT AC EGLWYS
LLANPUMSAINT

ALL PROFITS WILL BE SHARED BETWEEN LLANPUMSAINT PTA,
LLANPUMSAINT MEMORIAL HALL, LLANPUMSAINT WELFARE AND
RECREATION ASSOCIATION AND LLANPUMSAINT CHURCH

DIM CWN YN Y PARC NAC YN Y NEUADD | NO DOGS IN THE PARK OR INSIDE THE HALL